

Linda Cole - TLC and Enabling (Trelawnyd Living Care and Enabling)

Roeddwn i wedi bod mewn swydd nad oeddwn i'n ei mwynhau mwyach, sefyllfa yr wyf wedi bod ynnddi o'r blaen yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Doedd yna ddim boddhad i'w gael ac roeddwn i'n chwilio am yrfa a fyddai'n ychwanegu rhywbeth gwerth chweil at fy mywyd pob dydd. Ar ôl meddwl am y peth, roeddwn i'n gwybod y byddai helpu eraill a gweithio i gefnogi'r gymuned yn rhoi hunanwerth i mi ac yn gyfle i mi wneud swydd dw i'n falch ohoni. Ar hap a damwain, pan oeddwn i'n edrych ar wefan Sir y Fflint, gwelais hysbysiad am feicro-ofalwyr ac ar ôl darllen y manylion anfonais neges e-bost at dîm y prosiect yn gofyn am fwy o wybodaeth.

Cefais ateb yn syth bin, a sgwrs dros y ffôn efo'r tîm ychydig ddyddiau'n ddiweddarach. Ar ôl siarad efo Marianne i ddechrau, cefais fwy o wybodaeth am y Prosiect Meicro-Ofal a'r amcanion yr oedd yn ceisio'u cyflawni a sut bydd yn helpu pobl i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain gyda pharch ac urddas cyhyd ag y bo modd, yn ogystal â chefnogi'r gymuned. Ar ben hyn, eglurodd Marianne y cymorth sydd ar gael gan Gyngor Sir y Fflint i ymgymryd â'r rôl newydd hon.

Gan fod gweithio i fi fy hun a'r yrfa ofalu hon yn newydd i mi, mae wedi bod yn brofiad dysgu hollol newydd. Roedd yna lawer o hyfforddiant gorfodol i'w gwblhau ond cefais gefnogaeth ar bob cam o'r ffordd, yn ogystal â chymorth gyda'r holl waith papur sydd ei angen i gefnogi a chychwyn busnes. Ar y dechrau roeddwn i'n dal i weithio yn fy hen swydd ac yn ceisio cwblhau'r hyfforddiant. Ond gan fy mod i mor anhapus, a ddim yn meddwl y buaswn i'n gallu rhoi 100% i'r rôl newydd, penderfynais adael y swydd a chanolbwyntio'n llwyr ar y rôl newydd hon.

Dw i erbyn hyn yn tynnu at ddiwedd yr hyfforddiant, a dw i'n edrych ymlaen yn fawr iawn at y dyfodol. Mae tîm y Prosiect Meicro-Ofal wedi rhoi cyfle gwych i mi a dw i'n edrych ymlaen at weithio ochr yn ochr â meicro-ofalwyr eraill a Chyngor Sir y Fflint.

Medi 2020